**Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau**

09 Hydref 2023: 11:00 – 12:30pm ar Microsoft Teams

**Yn bresennol:**

- Delyth Jewell AS, **Cadeirydd**, Senedd Cymru
- Peredur Owen Griffiths AS, Senedd Cymru
- Sion Wyn Evans, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Dewi John, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Catrin Hedd Jones, Prifysgol Bangor
- Chris Thomas, COPA
- Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru
- Heather Ferguson, Age Cymru
- Carol Maddock, Prifysgol Abertawe
- Sharon Ford, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru
- Carole Phillips, Kidscape
- Marie-Clare Hunter, Bwrdd Cynghori ENRICH Cymru
- Chris Thomas, COPA
- Tamasree Mukhopandhyay, Kiran Cymru
- Deb Morgan, Prifysgol Abertawe
- Andrea Nicholas Jones, Action for Elders
- Joanne Hook, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Rebecca Deverell, NUS Cymru
- Carole Phillips, Kidscape
- Pheobe Brown, Caffi Trwsio Cymru
- Sue Edgersdoff, Ready Generations
- Carol Maddock, Prifysgol Abertawe

**Ymddiheuriadau**

- Orla Tarn, NUS Cymru
- Ceri Cryer, Age Cymru
- Rachel Bowen, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Dave McKinney, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Altaf Hussain AS Senedd Cymru
- Tanya Strange, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Gweithredu**

1. Heather Ferguson i anfon ffotograffau o'r digwyddiad Atal Cwympiadau mewn ysgolion at Dewi John i'w cylchredeg.
2. Yr aelodau i e-bostio Catrin Hedd Jones os ydynt eisiau ymuno â grŵp llywio ar ganolfan ymchwil pontio'r cenedlaethau i Gymru.
3. Dewi John i wahodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol i'r dyfodol am sesiwn Hawl i Holi.
4. Dewi John i ychwanegu bysys ac integreiddio cartrefi gofal yn y gymuned ar agenda cyfarfodydd i'r dyfodol.

5. Yr aelodau i rannu unrhyw awgrymiadau am siaradwyr eraill ar fysys iddi hi neu i Dewi John.

**Croeso a Chyflwyniadau - Delyth Jewell AS – Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Croesawodd Delyth Jewell yr aelodau gan amlinellu mai hwn fydd ein cyfarfod cyffredinol blynyddol cyn i'r grŵp barhau i 2024. Cytunodd yr aelodau i nodi'r cofnodion o'r cyfarfod blaenorol.

**Enwebu Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Enwebodd Dewi John Delyth Jewell yn Gadeirydd ar y Grŵp Trawsbleidiol – cymeradwyodd y Grŵp hyn heb wrthwynebiadau. Fe wnaeth Delyth Jewell enwebu Jayne Bryant, Peredur Owen Griffiths ac Altaf Hussain fel Is-gadeiryddion o'r Grŵp – cymeradwyodd y Grŵp y rhain heb wrthwynebiadau.

Enwebodd Delyth Jewell swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol – cymeradwyodd y grŵp hyn heb ddim gwrthwynebiadau. Eiliodd Catrin Hedd Jones yr holl enwebiadau.

**Materion yn Codi – Gofod Trafod Cyffredinol**

Diweddariad gan aelodau:

Amlinellodd Heather Ferguson y gwaith a wnaeth fel rhan o'r Wythnos Atal Cwympiadau fis diwethaf. Eglurodd fod y digwyddiad yn canolbwyntio ar blant yng Nghyfnod Allweddol Dau i'w haddysgu am beryglon cwympo er mwyn iddynt allu helpu eu perthnasau hŷn i atal cwympiadau. Gofynnodd Delyth Jewell i Heather anfon ffotograffau o'r digwyddiadau at Dewi John er mwyn eu rhannu gyda'r grŵp ehangach.

Dywedodd Catrin Hedd Jones fod Canolfan dros Ymarfer, Ymchwil a Datblygu Pontio'r Cenedlaethau wedi'i sefydlu yn Lloegr.  Gofynnodd i'r aelodau rannu hyn ac anfon e-bost ati os oeddent am ymuno â'r grŵp llywio.

Rhoddodd Carol Maddock y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am hynt y comig newid hinsawdd gan egluro bod y comig wedi cael llawer o adborth cadarnhaol. Caiff y comig ei argraffu eto a'i roi ar-lein os gall y prosiect gael cyllid ychwanegol.

Dywedodd Tamasree Mukhopandyay fod KIRAN Cymru yn ymgysylltu â chymunedau pontio'r cenedlaethau hefyd drwy Gelf, Diwylliant a Threftadaeth. Mae defnyddwyr gwasanaethau KIRAN Cymru rhwng 4 ac 89 oed. Eglurodd fod KIRAN Cymru ar hyn o bryd yn ymgysylltu ag aelodau'r gymuned pontio'r cenedlaethol drwy Gelf ac addysg, sesiynau mathemateg rhad ac am ddim rheolaidd, siarad cyhoeddus, a sesiynau theatr. Dywedodd Tamasree os oedd gan unrhyw aelod o'r grŵp ddiddordeb, y dylent anfon e-bost ati ar info@kiran.org.uk.

Dywedodd Dereck Roberts fod Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru (NPC Cymru) yn rhwystredig â sefyllfa'r bysys yma yng Nghymru a bod NPC UK yn cynnal cynhadledd yng ngogledd-orllewin Lloegr ar fysys gan fod ganddynt broblemau tebyg yno. Dywedodd Delyth Jewell fod y Senedd wedi cael trafodaeth ar fysys wythnos diwethaf a bod y mater wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol wirioneddol. Gofynnodd Delyth i'r aelodau a oeddent eisiau siarad am fysys mewn cyfarfod i'r dyfodol. Cytunodd yr aelodau a bydd Dewi John yn ychwanegu hwn at yr agenda ar gyfer cyfarfod i'r dyfodol.

Gwirfoddolodd Heather Ferguson i wneud cyflwyniad ar fysys mewn cydweithrediad â Dereck Roberts ond gofynnodd a oedd yn bosibl cynnwys pobl iau hefyd. Gwirfoddolod Tamasree adain ieuenctid KIRAN Cymru. Gofynnodd Catrin a fyddai unrhyw rai o Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn hoffi ymuno â hyn hefyd. Gofynnodd Delyth i'r aelodau rannu unrhyw siaradwyr eraill ar y testun gyda hi neu Dewi John.

Mae Deb Morgan a Carol Maddock yn gweithio i sefydlu prosiect pontio'r cenedlaethau ar ddelio ag unigedd, drwy ddefnyddio gofod cyhoeddus. Diolchodd Sion Wyn Evans i Deb am y diweddariad hwn gan egluro y bydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cynnal ymgyrch ar unigedd ac unigrwydd cyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd Tamasree fod llawer o grwpiau yn ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau mewn cymunedau oherwydd bod lleoliadau wedi cau ers Covid a gofynnodd a oedd gan rywun le. Rhannodd Deb ei chyfeiriad e-bost er mwyn iddi hi a Tamsree allu gweithio ar hyn. [d.j.morgan@swansea.ac.uk]

Gofynnodd Delyth a oedd yr aelodau yn hapus i wahodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am sesiwn Hawl i Holi yn hytrach na llythyr er mwyn cipio rhai o'r themâu a grybwyllir uchod. Cytunodd yr aelodau.

**Trafodaeth ar Fynediad i Wasanaethau – Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd a Sion Wyn Evans (OPCW)**

Agorodd Sion Wyn Evans yr eitem hon drwy ddweud bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi cyflwyno canllawiau ym mis Tachwedd 2021 i awdurdodau lleol a byrddau iechyd a oedd yn datgan beth oedd angen ei gyflawni i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol, a bod rhaid gwarchod a chynnal hawliau pobl hŷn.

Cyhoeddwyd adroddiad pellach gan y Comisiynydd ym mis Medi 2022 sy'n crynhoi'r camau yr adroddodd y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol eu bod yn eu cymryd. Gan adeiladu ar y gwaith blaenorol hwn, yn haf 2023, fe wnaeth y Comisiynydd wahodd pobl hŷn i rannu eu profiadau o allgau digidol. Mae allgau digidol yn cynyddu ac mae wedi effeithio ar bob rhan o fywydau pobl hŷn gan gynnwys parcio, cael apwyntiad â meddyg teulu, a bancio. Eglurodd Sion hefyd fod allgau digidol yn arwain at fwy o unigedd a'i fod yn gwneud i rai pobl hŷn deimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl. Dywedodd Delyth Jewell fod y grŵp wedi bod yn trafod rhai o'r materion hyn gan amlygu'r ffaith bod pobl nad ydynt wedi'u cysylltu yn gweld y bwlch yn ehangu a'i bod yn anoddach mynd ar-lein.

Dywedodd Heather Ferguson fod Age Cymru yn ymwybodol bod rhai pobl hŷn yn eithaf medrus â thechnoleg tra bo eraill yn dewis peidio â defnyddio sgiliau digidol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal pobl rhag cael y gwasanaeth y mae arnynt ei eisiau. Dywedodd hefyd fod pobl iau yn cael eu hallgau yn ddigidol hefyd oherwydd cost technoleg.

Dywedodd Dereck Roberts fod NPC Cymru wedi bod yn helpu tîm y Comisiynydd ac Age Cymru yn eu hymchwil ar hyn ond lleisiodd ei bryderon na all rhai pobl gael gweld meddyg teulu hyd yn oed gan mai dim ond ar-lein y gellir trefnu apwyntiad. Tynnodd Sion sylw at waith y Comisiynydd ar fynediad i feddygon teulu ar ran y grŵp a dywedodd, os oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn clywed rhagor, y dylent e-bostio: ask@olderpeople.wales. Dywedodd Dereck hefyd nad yw'r tariffau cymdeithasol a ddarperir gan gwmnïau band eang yn ddigonol gan eu bod yn dal i gostio £15 y mis.

Dywedodd Marie-Clare Hunter ei bod yn meddwl bod cost band eang yn bryder gwirioneddol gan ei bod yn gost barhaus. Os yw costau eraill yn codi (e.e.,

gwresogi), fe allai pobl gael eu gorfodi i aberthu mynediad digidol a cholli eu hyder a'u "llais" digidol.

Ychwanegodd Andrea Nicholas Jones fod Covid wedi arwain at broblem â chostau sydd wedi golygu bod llawer o sefydliadau a lleoliadau cymunedol hefyd wedi collid cyllid a bydd hynny, ochr yn ochr ag allgau digidol a diffyg bysys, yn creu problemau mwy ag unigedd. Dywedodd Marie Clare ei bod hi'n arbennig o bryderus am bobl a oedd ag anawsterau cymdeithasol cyn y pandemig, pobl y gellid bod wedi eu darbwyllo i ddefnyddio gwasanaethau gofal dydd ayb. o bosibl, ond eu bod yn awr yn wynebu mwy o unigedd oherwydd problemau â chyllid ar ôl Covid. Eglurodd Dereck Roberts fod cymunedau oed-gyfeillgar yn fodel da i helpu i roi diwedd ar unigedd ac adeiladu ar hyder pobl hŷn.

Ychwanegodd Tamasree fod KIRAN Cymru, ers Covid, wedi gweld cynnydd aruthrol yn y galw am eu gwasanaethau dehongli.

**Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd Marie Clare a ellid ychwanegu'r eitem ar integreiddio cartrefi gofal yn y gymuned ehangach i'r agenda ar gyfer cyfarfod i'r dyfodol oherwydd bod nifer o drigolion cartrefi gofal yn aml yn cael eu hanghofio gan y gymuned. Dywedodd Heather nad oedd yn wir bod trigolion cartrefi gofal yn cael eu hanghofio gan amlygu rhai o'r prosiectau yr oedd Age Cymru yn eu rhedeg. Dywedodd Deb Morgan hefyd y byddai'n hapus i siarad rhagor am hyn.

Dywedodd Sue Edgersdoff y bydd hi'n cyhoeddi adroddiad gyda Phrifysgol Sir Gaerhirfryn ar integreiddio cartrefi gofal ac y bydd yn rhannu'r adroddiad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd siarad â phobl hŷn am y dyfodol yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y gorffennol gan fod gan bobl hŷn lawer i'w roi i gymdeithas o hyd pa un a ydynt yn byw mewn cartref gofal ai peidio. Cyfeiriodd Heather at adnodd Age Cymru ar iechyd meddwl mewn cartrefi gofal i gefnogi hyn. Dywedodd Chris y bydd COPA yn cynnal ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd lle bydd trafodaeth ar gartrefi gofal hefyd yn cael ei chynnal.

**Cloi**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 22ain Ionawr 2024 ar Microsoft Teams